# Cofrestrfa Tir EF
## Tystysgrif hunaniaeth unigolyn preifat

# ID1

**RHYBUDD**

**Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.**

**Rhaid i adran A ac adran B neu adran C y ffurflen hon gael eu llenwi, eu dyddio a'u llofnodi o fewn tri mis i adeg cyflwyno cais gyda Chofrestrfa Tir EF.**

**Ni ellir llofnodi ffurflenni hunaniaeth yn electronig gan ddefnyddio unrhyw fath o lofnod electronig.**

**Pwy sy'n gorfod llenwi'r ffurflen hon?**

- Unrhyw un nad yw'n drawsgludwr, neu nad yw'n fanc neu gymdeithas adeiladu yn y DU, sy'n cyflwyno un o'r ceisiadau canlynol gyda Chofrestrfa Tir EF.
  - Trosglwyddiadau (am werth neu beidio).
  - Trosglwyddiadau a gweithredoedd sy'n ymwneud â phenodiad neu ymddeoliad ymddiriedolwyr.
  - Prydlesi (am werth neu beidio) i'w cofrestru.
  - Arwystlon (morgeisi) i'w cofrestru.
  - Rhyddhad arwystl ar ffurflen DS1.
  - Gollyngiad arwystl ar ffurflen DS3.
  - Ildio prydlesi.
  - Y rhan fwyaf o geisiadau gwirfoddol a gorfodol am gofrestriad cyntaf lle collwyd neu lle dinistriwyd y gweithredoedd teitl.
  - Pob cais arall am gofrestriad cyntaf gorfodol a gwblhawyd ar neu ar ôl 10 Tachwedd 2008.
- Unrhyw un sy'n barti i un o'r trafodion uchod nad yw'n cael ei gynrychioli gan drawsgludwr, lle bo'r cais yn cael ei gyflwyno gan rywun nad yw'n drawsgludwr chwaith.
- Unrhyw un sy'n barti i un o'r trafodion uchod nad yw'n cael ei gynrychioli gan drawsgludwr ac, er bod y cais yn cael ei gyflwyno gan drawsgludwr, nid yw'r trawsgludwr hwnnw yn gallu cadarnhau eu bod yn fodlon y cymerwyd camau digonol i gadarnhau hunaniaeth y person.

Lle bo'r cais yn cael ei gyflwyno gan fwy nag un person, neu lle bo parti i drafodiad yn cynnwys mwy nag un person, sylwch fod yn rhaid i bob un ohonynt lenwi ffurflen ar wahân a chyflwyno tystiolaeth o'u hunaniaeth.

Gellir defnyddio'r ffurflen hon hefyd i ddarparu tystiolaeth hunaniaeth ar gyfer:

- rhywun sydd wedi newid ei enw ac mae'r newid yn cael ei gadarnhau trwy weithred newid enw, datganiad statudol neu ddatganiad o wirionedd. Rhaid llenwi'r ffurflen yn enw cyfredol yr unigolyn.
- atwrnai o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yng nghyfarwyddyd ymarfer 67 Cofrestrfa Tir EF (gweler isod).

**NODYN 1:** Nid oes rhaid llenwi'r ffurflen hon ar gyfer cofrestriadau cyntaf gwirfoddol oni bai bod y gweithredoedd teitl wedi cael eu colli neu eu dinistrio, neu ar gyfer arwystlon neu brydlesi sy'n cael eu nodi'n unig.

**NODYN 2:** Nid oes angen y ffurflen hon chwaith os nad yw gwir werth y tir sy'n destun y trafodiad yn fwy na £6,000, neu os yw Cofrestrfa Tir EF wedi darparu llythyr cyfleuster o ran hunaniaeth unigolyn.

Am eithriadau i'n gofyniad o ran tystiolaeth hunaniaeth yn achos cofrestriadau cyntaf lle collwyd neu dinistriwyd y gweithredoedd, gweler cyfarwyddyd ymarfer 2: *cofrestriad cyntaf os yw gweithredoedd ar goll neu wedi eu dinistrio.*

**Pam mae'n rhaid imi lenwi'r ffurflen hon?**

Rydym yn gofyn am y wybodaeth hon er mwyn diogelu yn erbyn twyll cofrestru. Lle nad yw ceisydd, neu bartïon i drafodiad yn cael eu cynrychioli gan drawsgludwr neu lle collwyd neu dinistriwyd gweithredoedd teitl, mae'n bwysig cyflwyno tystiolaeth hunaniaeth er mwyn i ni allu cofrestru'r trafodiad.

**Sut mae llenwi'r ffurflen hon?**

Rhaid i chi lenwi adran A. Yna rhaid i'ch hunaniaeth gael ei chadarnhau gan drawsgludwr, Gweithredwr Cyfreithiol Siartredig neu gadarnhäwr cymeradwy arall. Os ydych yn cael eich hunaniaeth wedi ei chadarnhau yn bersonol, bydd yn rhaid i chi fynd â thystiolaeth o'ch hunaniaeth gan gynnwys llun lliw o faint pasbort a dynnwyd yn ystod y tri mis diwethaf sy'n gorfod bod ar bapur ffotograffig ac sy'n dangos eich wyneb yn glir. Gweler adrannau B3 a B4 am y mathau o dystiolaeth y bydd eu hangen.

Os yw trawsgludwr neu Swyddog Cyfreithiol Siartredig yn cadarnhau eich hunaniaeth trwy fideoalwad, gweler cyfarwyddyd ymarfer 67: tystiolaeth hunaniaeth am ragor o wybodaeth.

Bydd y trawsgludwr, Gweithredwr Cyfreithiol Siartredig neu gadarnhäwr cymeradwy arall yn llenwi adran B os yw'n cadarnhau eich hunaniaeth yn bersonol, neu adran C os yw'n cadarnhau eich hunaniaeth yn ddigidol. Os gwneir y cadarnhau trwy alwad fideo, dylech lenwi ffurflen ID5 hefyd. Mae'n bosibl y bydd Trawsgludwyr, Gweithredwr Cyfreithiol Siartredig a chadarnhawyr cymeradwy eraill yn codi ffi i gadarnhau eich hunaniaeth.

Gall aelodau o luoedd arfog y DU sy'n gwasanaethu tramor ofyn i swyddog sy'n gwasanaethu gadarnhau ei hunaniaeth hefyd. **Rhaid i adran A ac adran B neu adran C y ffurflen hon gael eu llenwi, eu dyddio a'u llofnodi o fewn tri mis i adeg cyflwyno cais gyda Chofrestrfa Tir EF.**

Mae'r cyhoeddiadau canlynol yn cynnwys gwybodaeth am lenwi'r ffurflen hon:

– *Llenwi ffurflenni ID1 ac ID2*, os nad ydych yn drawsgludwr, a

– *Llenwi'r paneli tystiolaeth hunaniaeth ar ffurflenni AP1, FR1, DS2*, os nad ydych yn drawsgludwr, neu

– *cyfarwyddyd ymarfer 67: tystiolaeth hunaniaeth,* os ydych yn drawsgludwr.

– cyfarwyddyd ymarfer 81: annog y defnydd o dechnoleg ddigidol wrth gadarnhau hunaniaeth, os ydych yn drawsgludwr sy'n cadarnhau hunaniaeth yn ddigidol.

Mae ein holl gyfarwyddiadau a ffurflenni ar gael ar wefan GOV.UK www.gov.uk.

Rydym yn eich argymell yn gryf i ddefnyddio'r cyfarwyddiadau hyn. Yn ogystal â darparu gwybodaeth am y ffurflen hon, maent hefyd yn esbonio sut i lenwi paneli penodol o'r ffurflen(ni) cais eraill y bydd yn rhaid i chi eu cyflwyno.

Trawsgludwr yw unigolion a awdurdodwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol yn ymwneud â chofrestru tir ac mae'n cynnwys cyfreithwyr, trawsgludwyr trwyddedig ac ymarferyddion trawsgludo a awdurdodwyd gan Reoliad CILEx i ymgymryd â gweithgareddau offeryn neilltuedig ac sydd â thystysgrifau ymarfer. Ni all paragyfreithiwr gadarnhau hunaniaeth.

**Sylwer os gwelwch yn dda: efallai na chaiff eich cais ei dderbyn i'w gofrestru os nad yw mewn trefn, ac mae hyn yn cynnwys defnydd o'r ffurflenni anghywir.**

**Ydy'r ffurflen hon ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio?**

Nac ydy. Mae'r ffurflen hon, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol a gyflwynir i Gofrestrfa Tir EF pan fyddwn yn cadarnhau eich hunaniaeth, yn cael ei heithrio'n awtomatig o dan Reol 133 o Reolau Cofrestru Tir 2003 (fel y'u newidiwyd) o hawl y cyhoedd i archwilio.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data'r DU. Gall gadw a rhannu gwybodaeth gydag:

- adrannau eraill y llywodraeth,
- cyrff gorfodi a rheoleiddio cyfraith gan gynnwys sefydliadau gwrth-dwyll penodedig o dan adran 68 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2007.

Mae hyn yn cynorthwyo i atal a chanfod troseddau megis twyll cofrestru neu dwyll eiddo ac i ymchwilio i gynlluniau bancio tir.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn defnyddio data personol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

# ID1

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.**
**Rhaid llenwi pob panel heblaw lle nodir "(os oes)".**
**Rhaid llenwi'r ffurflen hon o fewn tri mis i adeg cyflwyno'r cais gyda Chofrestrfa Tir EF**

## Adran A

*Rhaid i bob unigolyn y mae angen tystiolaeth hunaniaeth ar ei gyfer lenwi ffurflen ar wahân.*

1. **Teitl** (e.e. Mr, Mrs, Miss, Dr., ayb)

2. **Enw(au) cyntaf *(Rhowch yr enw(au) llawn)***

3. **Cyfenw**

4. **Dyddiad geni**

5. **Cyfeiriad presennol**

6. **Am faint ydych chi wedi byw yn y cyfeiriad hwn?**

7. **Rhestrwch unrhyw gyfeiriad arall lle rydych wedi byw yn ystod y pum mlynedd diwethaf**

8. **Rhif ffôn cartref (llinell tir) (ysgrifennwch "dim" os nad oes un gennych)**

9. **Rhif ffôn gwaith** *(os oes)*

10. **Rhif ffôn symudol** *(os oes)*

**Manylion y cais**

11. **Math o gais** *(e.e. trosglwyddiad, morgais, rhyddhad ayb)*

12. **Rhif(au) teitl** *(os ydych yn ei wybod/os yw'n berthnasol)*

13. **Cyfeiriad yr eiddo** *(gan gynnwys y cod post)*

14. **Tystysgrif**

Tystiaf fod y wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Rwy'n awdurdodi swyddog o Gofrestrfa Tir EF i wneud y chwiliadau a gwiriadau ychwanegol sy'n angenrheidiol i gadarnhau fy hunaniaeth.

**Llofnodwyd**__________________________ **Dyddiad**

*Sylwch fod yn rhaid i'ch hunaniaeth gael ei gadarnhau gan drawsgludwr, Gweithredwr Cyfreithiol Siartredig neu gadarnhäwr cymeradwy arall a bydd yn rhaid i'r person hwnnw lenwi adran B y ffurflen hon.*

**Yr adrannau o’r ffurflen mae angen ichi eu cwblhau.**

**Fel cadarnhäwr, rhaid ichi gwblhau naill ai adran B neu C o’r ffurflen hon, neu fel arall, ffurflen ID5.**

- Cwblhewch adran B y ffurflen hon os ydych yn cadarnhau hunaniaeth y person yn bersonol.
- Cwblhewch adran C y ffurflen hon os ydych yn cadarnhau hunaniaeth y person o dan safon hunaniaeth ddigidol Cofrestrfa Tir EF.
- Peidiwch â chwblhau adran B neu C y ffurflen os ydych yn cadarnhau hunaniaeth y person trwy alwad fideo. Dylech lenwi ffurflen ID5 yn lle.

## Adran B (i’w llenwi gan y cadarnhäwr)

*Llenwch rannau 1, 3 a 4 a’r panel priodol yn rhan 2.*

**1.** *Rhowch 'X' yn y blwch priodol.*

☐ Rwyf wedi adnabod yr unigolyn a enwir yn adran A am o leiaf ddwy flynedd

☐ **Nid** wyf wedi adnabod yr unigolyn a enwir yn adran A am o leiaf ddwy flynedd

**2a. Llenwch y panel hwn os ydych yn**

☐ **gyfreithiwr**

☐ **trawsgludwr trwyddedig**

☐ **notari cyhoeddus**

☐ **bargyfreithiwr**

☐ **Ymarferydd Trawsgludo CILEX**

☐ **Gweithredwr Cyfreithiol Siartredig**

☐ **Ymarferydd Profiant Trwyddedig a reoleiddir gan Gyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig**

☐ **cyfreithiwr neu unrhyw un o’r uchod sy’n ymarfer y tu allan i’r DU** *(gweler Nodyn 2 isod) (rhowch ‘X’ yn y blwch cymwys)*

**a’ch bod yn meddu ar dystysgrif ymarfer gyfredol.**

Rwyf fi *(enw’r ardystiwr) (mewn prif lythrennau)*

o *(enw’r sefydliad sy’n ardystio’r hunaniaeth)*

yn ardystio bod *(enw’r unigolyn y mae ei hunaniaeth yn cael ei chadarnhau)*

wedi cyflwyno’r dystiolaeth hunaniaeth wreiddiol a nodir ym mhanel 3 isod ac a archwiliwyd gen i. Rwy’n cadarnhau bod y llun a atodir ym mhanel 4, ac a lofnodwyd gen i, yn debygrwydd gwir i’r unigolyn a ddarparodd y dystiolaeth hon.

**Llofnod y cadarnhäwr:** ______________________________

Dyddiad

Rhif Rhôl, Trwydded, Awdurdod neu Aelodaeth (os yw’n gymwys):

Cyfeiriad:

**Nodyn 1:** Bydd Cofrestrfa Tir EF yn cysylltu â thrawsgludwyr a chadarnhawyr eraill i wneud yn siwr bod ffurflen a lenwyd yn eu henw yn ddilys. **Dylech gadw cofnod o unigolion y cadarnhawyd eu hunaniaeth gennych a gwneud copi o’r llun a ardystiwyd gennych.**

**Nodyn 2:** Lle y mae hunaniaeth yn cael ei chadarnhau gan gyfreithiwr neu unrhyw un o'r uchod sy'n ymarfer y tu allan i'r DU, rhaid amgáu tystiolaeth o awdurdod y cyfreithiwr i ymarfer yn ei awdurdodaeth gyda'r ffurflen hon.

**2b. Cwblhewch y panel hwn os ydych yn swyddog yn gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU sy'n gwasanaethu dramor.**

Rwyf fi *(enw'r ardystiwr) (mewn prif lythrennau)*

o enw'r *(enw uned y lluoedd arfog)*

yn ardystio bod *(enw'r unigolyn y mae ei hunaniaeth yn cael ei chadarnhau)*

wedi cyflwyno'r dystiolaeth hunaniaeth wreiddiol a nodir ym mhanel 3 isod ac a archwiliwyd gen i. Rwy'n cadarnhau bod y llun a atodir ym mhanel 4, ac a lofnodwyd gen i, yn debygrwydd gwir o'r unigolyn a ddarparodd y dystiolaeth hon.

**Llofnod y cadarnhäwr:** ________________________________________

Dyddiad

Rhif pasbort

Cyfeiriad:

**I'w llenwi gan y cadarnhäwr**
**3. Tystiolaeth hunaniaeth wedi ei harchwilio** (rhowch groes yn erbyn yr eitem(au) a archwiliwyd)
**RHAID I CHI ARCHWILIO NAILL AI:**

**Un** o'r canlynol **(Rhestr A):**

- ☐ Pasbort llawn cyfredol dilys – Nodwch rif y pasbort a gwlad ei gyhoeddiad:

  Gwlad ei gyhoeddiad: Rhif pasbort:

- ☐ Trwydded yrru lawn gyfredol ar ffurf cerdyn llun y DU, yr UE, Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel (nid trwydded dros dro) – Nodwch rif y drwydded
- ☐ Trwydded Breswylio Fiometrig gyfredol a gyflwynwyd gan Swyddfa Gartref y DU i rywun sy'n preswylio yn y DU nad yw o'r DU – Nodwch Rif Unigryw'r Drwydded

**NEU**

**Ddau** o'r canlynol **(Rhestr B)** ond dim mwy nag un o bob math:

- ☐ Cerdyn credyd yn dangos logo Mastercard neu Visa, cerdyn American Express neu Diners Club, neu gerdyn debyd neu aml-swyddogaeth yn dangos logo Maestro, Mastercard neu Visa a gyhoeddwyd yn y DU gyda chefnogaeth cyfriflen sy'n llai na thri mis oed*
- ☐ Bil gwasanaeth sy'n llai na thri mis oed*
- ☐ Bil y dreth gyngor am y flwyddyn gyfredol
- ☐ Llyfr rhent y cyngor sy'n dangos y rhent a dalwyd am y tri mis diwethaf
- ☐ Datganiad morgais am y flwyddyn gyfrifo morgais sydd newydd fynd heibio*
- ☐ Tystysgrif dryll tanio neu wn haels gyfredol

* Rhaid i'r rhain fod yn gyfriflenni a anfonwyd trwy'r post; ni allant fod yn gyfriflenni a anfonwyd yn electronig.

**I’w llenwi gan y cadarnhäwr**

**4. Llun y ceisydd a enwir yn adran A**

| | |
|---|---|
| **Styffylwch neu atodwch fel arall y llun lliw o fath pasbort diweddar yma** | Rhaid i’r cadarnhäwr lofnodi ei enw ar gefn y llun ac ychwanegu’r dyddiad.<br><br>Rhaid i’r llun fod yn un lliw ar bapur ffotograffig.<br><br>Styffylwch neu atodwch y llun fel arall i’r ffurflen. Peidiwch â gludio’r llun i’r ffurflen.<br><br>Os yw’r cais yn cael ei gyflwyno’n electronig, bydd angen ichi amgáu sgan lliw o flaen a chefn y llun. |

## Adran C (i’w llenwi gan y cadarnhäwr)

Cwblhewch yr adran hon os ydych wedi cadarnhau hunaniaeth yr unigolyn o dan safon hunaniaeth ddigidol Cofrestrfa Tir EF.

Peidiwch â chwblhau’r adran hon os ydych yn cadarnhau hunaniaeth y person yn bersonol. Cwblhewch adran B yn lle hynny.

**1. I’w llenwi gan y cadarnhäwr**

**Cwblhewch yr adran hon os ydych wedi cadarnhau hunaniaeth yr unigolyn o dan safon hunaniaeth ddigidol Cofrestrfa Tir EF.**

**Llenwch y panel hwn os ydych yn**

- ☐ **gyfreithiwr**
- ☐ **trawsgludwr trwyddedig**
- ☐ **notari cyhoeddus**
- ☐ **bargyfreithiwr**
- ☐ **Ymarferydd Trawsgludo CILEX**
- ☐ **Gweithredwr Cyfreithiol Siartredig**
- ☐ **Ymarferydd Profiant Trwyddedig a reoleiddir gan Gyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig**
- ☐ **cyfreithiwr neu unrhyw un o’r uchod sy’n ymarfer y tu allan i’r DU** *(gweler Nodyn 2 isod) (rhowch ‘X’ yn y blwch cymwys)*

Rwyf fi *(enw’r cadarnhäwr) (mewn prif lythrennau)*

o *(enw’r sefydliad sy’n ardystio’r hunaniaeth)*

**yn ardystio bod** *(enw’r unigolyn y mae ei hunaniaeth yn cael ei chadarnhau)*

**wedi cael ei hunaniaeth wedi ei chadarnhau o dan safon hunaniaeth ddigidol Cofrestrfa tir EF a bod y gofynion a nodir yng nghyfarwyddyd ymarfer 81 wedi eu bodloni.**

**Llofnod y cadarnhäwr:** ________________________________________

Dyddiad

Rhif Rhôl, Trwydded, Awdurdod neu Aelodaeth (os yw’n gymwys):

Cyfeiriad:

**RHYBUDD** Os ydych yn gwneud datganiad mewn modd anonest y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

**Nodyn 1:** Bydd Cofrestrfa Tir EF yn cysylltu â throsglwyddwyr a chadarnhawyr eraill i weld bod ffurflen a lanwyd yn eu henwau yn ddilys. **Dylech gadw cofnod o bobl rydych wedi cadarnhau hunaniaeth ar eu cyfer a chopi o'r ffotograff a ardystiwyd gennych.**

**Nodyn 2: Am ragor o wybodaeth ar gyflawni safon hunaniaeth ddigidol Cofrestrfa tir EF, gweler cyfarwyddyd ymarfer 81.**

**I'w llenwi gan y cadarnhäwr**

2. **Tystiolaeth hunaniaeth** (rhowch groes yn erbyn yr eitem a diciwyd)

**Un o'r canlynol:**

☐ Pasbort llawn dilys cyfredol – Nodwch wlad cyhoeddi a rhif y pasbort:

Gwlad cyhoeddi: Rhif y pasbort:

☐ Cerdyn adnabod biometrig o wlad yn yr UE neu'r AEE (Ardal Economaidd Ewropeaidd) sy'n dilyn safonau Rheoliad y Cyngor Rhif 2252/2004.

Gwlad cyhoeddi: Rhif y ddogfen:

☐ Trwydded Breswylio Biometrig gyfredol a gyhoeddir gan Swyddfa Gartref y DU i breswylydd nad yw'n ddinesydd y DU yn y DU – Nodwch Rif Unigryw'r Drwydded:

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 02/26